# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **4 Mai 2023** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Uwch gyflogau y Cyngor** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Ian Jones,**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

### 1. PENDERFYNIAD

Gofynnir i'r Cyngor:

1.1 Fabwysiadu'r uwch-gyflogau isod ar gyfer 2023/24:

Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- Hyd at 8 aelod arall o'r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf *
- Cadeiryddion Pwyllgorau:
    - o Pwyllgorau Craffu (x3)
    - o Pwyllgor Cynllunio
    - o Pwyllgor Trwyddedu (mae'r pwyllgor Trwyddedu Canolog a Chyffredinol yn cael ei drin fel un pwyllgor)
    - o Pwyllgor Pensiynau

- Pennaeth dinesig (Cadeirydd y Cyngor)
- Dirprwy Bennaeth dinesig (Is-gadeirydd y Cyngor)

### 2. CEFNDIR A RHESYMEG

2.1 Cyfrifoldeb y Cyngor Llawn yw penodi yr uwch gyflogau yn flynyddol. Yn arferol gwneir hynny fel rheol fel rhan o'r adolygiad blynyddol ar gydbwysedd gwleidyddol.

2.2 Yn ei gyfarfod ar 19 Mai 2022 penderfynodd y Cyngor fabwysiadu 17 uwch gyflog gan ofyn i'r pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth adolygu'r sefyllfa ar gyfer 2023/24. Roedd hyn yn sgil y newid i sefyllfa'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gydag aelod lleyg yn ymgymryd â rôl Cadeirydd y pwyllgor o 2022/23 ymlaen. Mae gofynion penodol gan y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) ar gyfer talu'r Cadeirydd a'r aelodau lleyg.

2.3 Noder fod y Panel wedi gosod cap o 18 fel uchafswm o uwch gyflogau y gellir eu talu gan Gyngor Gwynedd. Nid yw'r uchafswm wedi newid.

2.4 Penderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth mai'r ffordd mwyaf synhwyrol o adolygu cyfrifoldebau Cadeiryddion Pwyllgorau er mwyn dod i gasgliad am ddyranu'r uwch gyflogau oedd ceisio asesu'r pwysau gwaith sy'n dod yn sgil y rôl benodol. Gwnaethpwyd hynny drwy holi'r swyddogion sydd â chyfrifoldeb am brif bwyllgorau'r Cyngor i amlinellu'r cyfrifoldebau/gofynion ar y Cadeiryddion ac ymgynghori gyda'r Cadeiryddion. Mae canlyniad y gwaith i'w weld yn **Atodiad A**.

2.5 Yn sgil y gwaith uchod, cyflwynwyd argymhelliad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth i fabwysiadu'r rhestr isod o uwch-gyflogau ar gyfer 2023/24.

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- Hyd at 8 aelod arall o'r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf *
- Cadeiryddion Pwyllgorau:
    - Pwyllgorau Craffu (x3)
    - Pwyllgor Cynllunio
    - Pwyllgor Trwyddedu (mae'r pwyllgor Trwyddedu Canolog a Chyffredinol yn cael ei drin fel un pwyllgor)
    - Pwyllgor Pensiynau

- Pennaeth dinesig (Cadeirydd y Cyngor)
- Dirprwy Bennaeth dinesig (Is-gadeirydd y Cyngor)

* (mae hyn yn ofyn penodol gan y Panel – nid yw'n ddewisiol)

2.6 Noder nad yw swyddi'r Pennaeth dinesig a'r dirprwy bennaeth dinesig wedi'u cynnwys yn y cap. Mae Penaethiaid dinesig yn uwch-swyddi mewn cynghorau sy'n wahanol i arweinyddiaeth wleidyddol neu weithredol. Yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd pwysig, y Pennaeth dinesig yw 'dinesydd cyntaf' a 'llysgennad' yr awdurdod, gan gynrychioli'r Cyngor wrth ymwneud â phob math o sefydliadau a chyrff.

2.7 Penderfyniad y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar 16/03/2023 oedd:

1. *Argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r rhestr uwch gyflogau ar gyfer 2023/24 ac i'r dyfodol*
2. *Nodi bod y Pwyllgor wedi gofyn am wybodaeth ychwanegol yng nghyswllt cyfrifoldebau a llwyth gwaith Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, gan gynnwys cymhariaeth gyda'r sefyllfa mewn siroedd eraill, ac yn dymuno argymell i'r Cyngor llawn y dylid talu uwch-gyflog i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, os yw'r wybodaeth ychwanegol yn teilyngu hynny.*

Gwybodaeth ychwanegol

2.8 Yn sgil y cais uchod gan y Pwyllgor ar 16/03/2023, gohebwyd â holl awdurdodau Cymru i geisio cael dealltwriaeth o'r sefyllfa fesul awdurdod. Derbyniwyd gwybodaeth gan ddeg awdurdod arall o fewn y cyfnod. Roedd 7 awdurdod yn nodi nad yw Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn derbyn uwch gyflog neu bod argymhelliad na fyddai'r rôl yn derbyn uwch gyflog yn 2023/24. Roedd 1 awdurdod yn nodi fod y Cadeirydd wedi derbyn uwch gyflog ers sefydlu'r pwyllgor yn 2011, a 2 awdurdod yn nodi fod Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn derbyn uwch gyflog am y rôl yn ogystal â rôl arall (ond yn derbyn 1 uwch gyflog yn unig).

2.9 Cyflwynir y wybodaeth sydd i law yn **Atodiad B**. O ystyried y darlun o'r wybodaeth ar draws Cymru, nid yw'n ymddangos fod y rôl yn derbyn cydnabyddiaeth gan y mwyafrif o awdurdodau.

2.10 Fel Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, mae'n rhaid i mi roi ystyriaeth i'r darlun llawn wrth greu'r argymhelliad terfynol yn sgil cais y pwyllgor am wybodaeth ychwanegol.

- Sail yr adolygiad gwreiddiol wrth ail edrych ar yr uwch gyflogau oedd pwysau gwaith ar y gwahanol rolau, ac nid oes newid i'r wybodaeth yma.
- Nid yw'r wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno gan awdurdodau eraill Cymru yn dystiolaeth digonol i argymell uwch gyflog i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn gyfredol.

2.11 I grynhoi felly, rwy'n argymell yr 17 uwch gyflog yn ogystal a'r Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth Dinesig fel a nodir yn 1.1 o'r adroddiad.

## 3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar 16/03/2023 gyda'r argymhelliad gwreiddiol. Nid oes cyfarfod pellach o'r pwyllgor wedi bod ers hynny ac felly rwy'n cyflwyno fy argymhelliad terfynol yn uniongyrchol i'r Cyngor llawn yn dilyn y gwaith ychwanegol y gofynnwyd i mi ei wneud gan aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.

**3.2 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**

Cadarnhaf fod y penderfyniad a geisir yn cyd fynd a'r gofynion cyfreithiol sydd yn ynghlwm a phennu Uwch Gyflogau ar gyfer Prif Gyngor.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Gallaf gadarnhau fod cyllideb ddigonol yn ei le er mwyn ariannu’r penderfyniad a geisir.  Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.

**ATODIAD A –** Cyfrifoldebau yng Nghyngor Gwynedd

**ATODIAD B –** Gwybodaeth gan Gynghorau eraill ynghylch uwch gydnabyddiaeth i Gadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

**ATODIAD C –** Gwybodaeth ynghylch lefelau uwch gyflogau ar gyfer 2023/24